HANES BYW: COFIANT CYFNOD CLO

ABSTRACT

Lefel: Cyfnod Allweddol 2, 7-11 oed (Blwyddyn 3-6)

Pynciau: Hanes ac Ysgrifennu Creadigol

Hanes Byw: Cofiant Cyfnod Clo

Ymarfer Hanes Byw gan Amgueddfa Llandudno

Lefel: Cyfnod Allweddol 2, 7-11 oed (Blwyddyn 3-6)
Pynciau: Hanes ac Ysgrifennu Creadigol

Mae hanes yn llawn straeon go iawn wedi'u hysgrifennu gan bobl yn union fel chi! Ymhlith haneswyr mae palaeontolegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio ffosiliau planhigion ac anifeiliaid), archeolegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio hanes dynol), a daearegwyr (gwyddonwyr sy'n astudio cerrig). Stori go iawn yw cofiant am atgofion. Mae haneswyr yn defnyddio'r cofiannau hyn i helpu ni i ddeall sut mae hanes yn edrych drwy lygaid yr awdur. Yn ystod yr aseiniad hwn byddwn yn ysgrifennu cofiant byr iawn i gofnodi eich profiadau yn ystod y cyfnod clo nawr. Wrth ysgrifennu cofiannau, mae'n bwysig cofio does dim atebion anghywir, ond cofiwch sicrhau bod eich stori'n wir ac yn seiliedig ar eich profiadau. Ffwrdd â ni! Ysgrifennwch eich atebion i'r cwestiynau canlynol ar ddarn arall o bapur gyda'ch enw, eich oedran a'r dyddiad yr ydych yn ysgrifennu ar dop y dudalen.

1. Beth mae'r gair cwarantîn yn ei olygu i chi?

Canllaw: weithiau mae geiriau'n dod â meddyliau a lluniau gwahanol i'n pen. Ysgrifennwch y gair Cwarantîn a disgrifiwch rai o'r pethau sy'n dod i'ch meddwl pan fyddwch chi'n clywed y gair hwnnw.

2. Sut oedd eich diwrnod yn edrych cyn i'r cyfnod clo (*Lockdown*) ddechrau?

Canllaw: Sut oeddech chi'n mynd i'r ysgol? Beth oeddech chi'n ei wneud yn ystod amser chwarae? Pa gemau oeddech chi'n chwarae gyda ffrindiau? Ysgrifennwch rai o'r pethau rydych yn eu cofio am fod yn yr ysgol cyn i'r cyfnod clo ddechrau.

3. Sut oeddech chi'n teimlo ar ddiwrnod cynta'r cyfnod clo?

Canllaw: Mae eich teimladau'n bwysig. Beth oedd eich barn pan ddywedodd eich rhieni neu warcheidwad wrthych fod y cyfnod clo'n dechrau? Beth oeddech chi'n feddwl oedd hynny'n ei olygu?

4. Sut mae eich diwrnod yn edrych nawr yn ystod y cyfnod clo?

Canllaw: Mae'r cyfnod clo'n golygu llawer o newidiadau. Yn y rhan hon, ysgrifennwch am beth sydd wedi newid yn eich bywyd bob dydd. Ydych chi'n hoffi'r newidiadau hyn?

5. Beth yw'r peth mwyaf diddorol rydych wedi dysgu yn ystod y cyfnod clo?

Canllaw: Mae'ch ysgol wedi anfon llawer o weithgareddau gartref. Pa rai oedd eich hoff rai? Ysgrifennwch restr o'r rhai yr oeddech yn eu hoffi fwyaf a dywedwch wrthym pam yr oeddech yn eu hoffi.

6. Mewn blwyddyn, beth ydych chi'n meddwl y byddwch yn ei gofio fwyaf am y cyfnod clo?

Canllaw: Mae cymaint o bethau wedi digwydd yn ystod y cyfnod clo. Pa ran o'r cyfnod clo ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei gofio fwyaf? Ysgrifennwch am beth fyddwch chi'n ei gofio a pham.

Llongyfarchiadau! Rydych newydd greu hanes.

Os ydych chi'n awyddus i gynnal arbrawf gydag Amgueddfa Llandudno ar gofiannau fel hanes, gallwch ofyn i riant neu warcheidwad e-bostio llun neu gopi o'r cofiant i deann@llandudnomuseum.co.uk <mailto:deann@llandudnomuseum.co.uk> gan roi Cofiant Cyfnod Clo 2020 yn y llinell bwnc. Blwyddyn yn union o ddyddiad cyntaf cyfnod clo'r DU, bydd Amgueddfa Llandudno yn sicrhau bod y cofiannau hyn ar gael i'r cyhoedd eu darllen. Os nad ydych chi'n awyddus i anfon y darn i mewn, rhowch y cofiant mewn amlen gan nodi'r dyddiad arno a'i roi i gadw am flwyddyn. Pan fyddwch chi'n ei ddarllen eto, meddyliwch am sut mae eich barn am y cyfnod clo wedi newid dros amser.

Llyfrau ffeithiol eraill all fod o ddiddordeb:

Cofiannau Presennol:

- **I Am Malala: How One Girl Stood Up for Education and Changed the** World Ages gan Malala Yousafzai a Patricia McCormick
- **Being Jazz: My Life as a (Transgender) Teen** gan Jazz Jennings

Cofiant Nofel Graffig:

- **Persepolis** gan Marjane Satrapi
- **El Deafo** gan Cece Bell